Department for Environment, Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Tipio anghyfreithlon: pwerau i awdurdodau lleol roi rhybuddiadau amodol i droseddwyr

## Delio â phobl sy'n tipio'n anghyfreithlon yn gyson

Awst 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Trwyddedir yr wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn cleanupsquads@defra.gov.uk

# Cynnwys

Cyflwyniad ........................................................................................................ 4

Ymateb i'r ymgynghoriad ........................................................................................ 6

Cyfnod yr ymgynghoriad .......................................................................................... 7

Ar ôl yr ymgynghoriad ............................................................................................. 7

Y cynnig .................................................................................................................... 8

Cwestiynau'r ymgynghoriad .................................................................................... 12

# Cyflwyniad

Mae delio â thipio anghyfreithlon yn dargyfeirio cannoedd o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn oddi wrth wasanaethau cyhoeddus hanfodol eraill yng Nghymru a Lloegr drwy roi baich sylweddol a gweithredol ar ein hawdurdodau lleol. Ar ben hynny, mae tipio anghyfreithlon yn niweidio iechyd pobl ac iechyd ein bywyd gwyllt, ac mae'n cyfrannu at ymdeimlad o esgeulustod sy'n gallu gwneud i gymunedau deimlo'n anniogel ac yn annymunol i fyw ynddynt. Gall amgylcheddau lleol o ansawdd gwael atal buddsoddiad a dros amser, gall ostwng gwerthoedd eiddo, gan danseilio twf economaidd lleol a balchder cymunedol.

Mae pobl yn ymfalchïo yn y mannau lle maent yn byw - y parciau lle mae plant yn chwarae, y mannau gwyrdd y mae pobl yn eu trysori, a'r tirweddau sy'n diffinio ein trefi, ein dinasoedd a'n cefn gwlad. Ond mae tipio anghyfreithlon yn creithio ein strydoedd ac mae grwpiau troseddu cyfundrefnol yn ecsbloetio'r sector gwastraff am elw. Mae'r troseddau hyn yn niweidio'r amgylchedd, yn bygwth diogelwch y cyhoedd ac yn tanseilio busnesau gonest.

Amcangyfrifir bod 20% o'r holl wastraff yn cael ei reoli'n anghyfreithlon, felly mae troseddau gwastraff yn costio £1 biliwn i'n heconomi bob blwyddyn[1]. Yn 2024-25, fe wnaethom golli o leiaf £240 miliwn o refeniw yn sgil efadu'r Dreth Dirlenwi[2].

O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990[3], mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr bwerau eisoes i gymryd camau gorfodi yn erbyn troseddwyr sy'n tipio'n anghyfreithlon. Gall unrhyw un sy'n cael ei ddal yn tipio'n anghyfreithlon gael ei erlyn a gall hyn arwain at ddirwy sylweddol, dedfryd gymunedol neu hyd yn oed garchar.

Yn Lloegr, roedd cyfanswm y dirwyon llys ar gyfer pob digwyddiad sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon wedi gostwng 9% o 1,378 yn 2023/24 i 1,250 yn 2024/25, gyda gwerth cyfun y dirwyon hyn yn gostwng o £730,000 i £673,000. Fodd bynnag, mae'r ddirwy gyfartalog wedi cynyddu o £530 yn 2023/24 i £539[4]. Yng Nghymru, cymerwyd 27,749 o gamau gorfodi yn 2024/25, 9% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, ac roedd 22,924 (83%) ohonynt yn ymchwiliadau. Yn 2024/25, 70 oedd nifer y canlyniadau erlyn, gostyngiad o 102 yn 2023/24; tra bod y gyfran a arweiniodd at ddirwy wedi cynyddu o 69% (tua 70 o ddirwyon) i 80% (56 o ddirwyon).

---

[1] Arolwg Cenedlaethol o Droseddau Gwastraff, ystadegyn o 2021, heb ei gynyddu i'r prisiau cyfredol.
[2] 6.Bylchau mewn trethi: Trethi eraill - GOV.UK; yn seiliedig ar fethodoleg enghreifftiol CThEF
[3] Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

[4] Ystadegau tipio anghyfreithlon ar gyfer Lloegr, 2024 i 2025 - GOV.UK

Yn hytrach nag erlyn, yn Lloegr gall awdurdodau lleol ddewis rhoi hysbysiad cosb benodedig (dirwy yn y fan a'r lle) o hyd at £1,000 i bobl sy'n tipio'n anghyfreithlon (sy'n codi i £5000 o 1 Medi 2026 ymlaen) a £600 i ddeiliaid tai sy'n trosglwyddo eu gwastraff i gludwr gwastraff heb drwydded. Yng Nghymru, y terfynau uchaf ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig am yr un troseddau ar hyn o bryd yw £400 a £300 yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae'r ddau derfyn uchaf yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a gallant gynyddu (i £5,000 a £400 yn y drefn honno).

Yn Lloegr, rhoddwyd 19,196 o hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon yn 2024/25 - 6% o ostyngiad o 20,287 yn 2023/24[5]. Cyfanswm yr hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd am yr holl droseddau sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon yw'r ail achos mwyaf cyffredin o gamau gorfodi ar ôl ymchwiliadau ac roeddent yn cyfrif am 12% o'r holl gamau gorfodi yn 2024/25. Yng Nghymru, roedd nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd am dipio anghyfreithlon wedi cynyddu 40% (o 1,086 yn 2023/24 i 1,519 yn 2024/25) ac roeddent yn cyfrif am 5% o'r holl gamau gorfodi yn 2024/25.[6]

Fodd bynnag, adroddodd 41 o awdurdodau lleol yn Lloegr a thri yng Nghymru yn 2024/25 nad oeddent wedi cyhoeddi unrhyw hysbysiadau cosb benodedig yn benodol ar gyfer tipio anghyfreithlon.

Mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r troseddau gwastraff sy'n rhy amlwg o lawer ar ein strydoedd. Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi cryfhau ei dull gweithredu yn ddiweddar gyda chanllawiau arfer gorau ac astudiaethau achos ar atafaelu cerbydau, a fydd yn helpu awdurdodau lleol i fanteisio i'r eithaf ar eu pŵer presennol i atafaelu cerbydau y maent yn amau eu bod yn gysylltiedig â throseddau gwastraff. Yn y pen draw, gall defnyddio'r pŵer hwn arwain at awdurdodau lleol yn cadw, gwerthu neu waredu'r cerbyd. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r rhaglen Taclo Tipio Cymru a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n helpu i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u camau gorfodi. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor arbenigol, rhannu arferion gorau a chyflenwi camerâu olrhain i dargedu mannau problemus o ran tipio anghyfreithlon.

Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cael pwerau yn Neddf Troseddu a Phlismona 2026 i ddarparu canllawiau gorfodi statudol ar dipio anghyfreithlon i gefnogi awdurdodau lleol i arfer y pwerau presennol hyn yn gyson, yn briodol ac yn effeithiol. Yng Nghymru a Lloegr, cafwyd pwerau pellach i ganiatáu i'r llysoedd ddyfarnu rhwng tri a naw pwynt cosb ar drwyddedau gyrru i'r rhai a geir yn euog o dipio anghyfreithlon. Bydd hyn yn ei gwneud yn anoddach i droseddwyr barhau i ddympio'n anghyfreithlon os ydynt wedi'u

[5] Ystadegau tipio anghyfreithlon ar gyfer Lloegr, 2024 i 2025 - GOV.UK

[6] Ystadegau tipio anghyfreithlon ar gyfer Lloegr, 2024 i 2025 - GOV.UK

gwahardd rhag gyrru ac yn rhoi rhybuddiad clir nad yw tipio anghyfreithlon yn cael ei oddef.

Ar 20 Mawrth 2026, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **Chynllun Gweithredu ar Droseddau Gwastraff**[7] ar gyfer Lloegr, sef ei chynllun llymaf erioed i fynd i'r afael â throseddwyr gwastraff. Mae'n nodi ein dull dim goddefgarwch o atal troseddau gwastraff, mynd ar drywydd y troseddwyr sy'n gyfrifol a chyflymu'r ymdrech lanhau.

Fodd bynnag, yn y maniffesto, nododd Llywodraeth y DU yn glir iawn ei bwriad i orfodi pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon a fandaliaid i lanhau'r llanast y maent wedi'i greu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion Llywodraeth y DU i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn y maniffesto a nod Llywodraeth Cymru o ddal llygrwyr yn atebol am eu gweithredoedd. Rydym yn cynnig ymestyn pwerau rhybuddiadau amodol i awdurdodau lleol. Mae rhybuddiadau amodol yn un o amrywiaeth o sancsiynau cymunedol cyn mynd i'r llys. Bydd y pŵer hwn yn rhoi arf arall i awdurdodau lleol frwydro yn erbyn melltith tipio anghyfreithlon.

**<u>Cynulleidfa</u>**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i bawb, ond rydym yn arbennig o awyddus i glywed barn awdurdodau sydd:

a) Yn ddarostyngedig i un neu'r ddwy ddyletswydd yn adran 89(1) a (2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990[8], i gadw tir perthnasol yn glir o sbwriel a gwastraff, ac i gadw'r priffyrdd yn lân; a/neu
b) Â'r pŵer i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau cosb benodol am daflu sbwriel a chosbau sifil am daflu sbwriel o gerbydau (yn Lloegr), a dosbarthu llenyddiaeth brintiedig am ddim ar dir dynodedig heb ganiatâd.

Rydym hefyd yn gwahodd ymatebion gan rai sefydliadau eraill gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gorfodi amgylcheddol, aelodau o'r gymuned ymchwil a'r diwydiant gwastraff, sefydliadau anllywodraethol a chyrff sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol.

Mae'r cynigion polisi hyn yn ymwneud â Chymru a Lloegr yn unig.

# Ymateb i'r ymgynghoriad

A fyddech cystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn un o'r ffyrdd canlynol:

---

[7] Cynllun Gweithredu ar gyfer Troseddau Gwastraff - GOV.UK
[8] Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Ar-lein gan ddefnyddio hwb ymgynghori Citizen Space yn Defra
https://consult.defra.gov.uk/

Er mwyn ei gwneud yn haws dadansoddi, byddai'n well gennym gael ymatebion drwy lwyfan Citizen Space, ond mae opsiynau eraill ar gael isod os oes angen:

Drwy e-bost i: cleanupsquads@defra.gov.uk

Yn ysgrifenedig i:

Clean up squads consultation
Defra Seacole Building
Ground Floor
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

Sylwch, mae'n rhaid i unrhyw ymatebion a gaiff eu hanfon drwy'r post fod wedi cyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 16 Hydref 2026, i gael eu hystyried. Ni fyddwn yn dadansoddi unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. I sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb ar-lein ar Citizen Space.

# Cyfnod yr ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 20 Awst ac yn dod i ben ar 16 Hydref 2026.

# Ar ôl yr ymgynghoriad

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl ymatebwyr am ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn ac unrhyw gamau nesaf posibl, drwy wefan gov.uk.

# Y cynnig

**Beth yw rhybuddiadau amodol?**

Mae rhybuddiad amodol a roddir o dan adran 22 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwr gydymffurfio ag amodau penodol, yn hytrach nag erlyn. Rhaid i'r amodau y gellir eu gosod fod yn rhai sy'n adsefydlu, yn gwneud iawn a/neu'n gosb ariannol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhybuddiadau Amodol i Oedolion[9]. Rheolir rhybuddiadau amodol i oedolion gan adrannau 22 i 27 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.[10]

Mae rhybuddiadau amodol yn un o gyfres o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys - ystod o opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd i'r heddlu ymateb i droseddau lefel isel heb orfod erlyn. Rhaid i droseddwyr gyfaddef eu bod yn euog a derbyn y rhybuddiad cyn y gellir ei roi. Os bydd y troseddwr, heb achos rhesymol, yn methu â chydymffurfio â'r rhybuddiad amodol, gellir ei erlyn am y drosedd wreiddiol.

Rydym yn cynnig ymestyn y pwerau i roi rhybuddiadau amodol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu rhoi rhybuddiadau amodol i droseddwyr sy'n tipio'n anghyfreithlon.

Cyn y gellir ystyried Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys, rhaid bod digon o dystiolaeth ar gael i roi gobaith realistig o gael euogfarn yn unol â'r Prawf Cod Llawn a nodir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron[11].

Rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon y bydd angen erlyniad o hyd, ac y gallai fynd yn ei flaen, pe gwrthodid y cynnig o Ddatrysiad y Tu Allan i'r Llys neu pe na bai'r troseddwr yn cwblhau neu'n cydymffurfio ag unrhyw amodau. Ar ôl bodloni'r prawf tystiolaeth, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes angen erlyn er budd y cyhoedd, neu a yw'n fodlon y gall Datrysiad y Tu Allan i'r Llys fod yn briodol er budd y cyhoedd. Wrth roi rhybuddiad amodol, rhaid i'r awdurdod lleol egluro effaith y rhybuddiad amodol a rhybuddio'r troseddwr y gallai methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau arwain at ei erlyn am y drosedd. Rhaid i'r troseddwr lofnodi dogfen sy'n cynnwys: manylion y drosedd, cyfaddefiad bod y troseddwr wedi cyflawni'r drosedd, caniatâd i gael rhybuddiad amodol a manylion yr amodau sydd ynghlwm wrth y rhybuddiad amodol.

---

[9] Cod ymarfer ar gyfer rhybuddiadau amodol i oedolion: rhan 3 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003
[10] Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003
[11] Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron | Gwasanaeth Erlyn y Goron

Cyn penderfynu ar amodau'r rhybuddiad, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ymgynghori ag unrhyw ddioddefwyr posibl y drosedd tipio anghyfreithlon a gwneud ymdrech resymol i gasglu eu barn. Efallai na fydd y gofyniad hwn bob amser yn berthnasol mewn achosion o droseddau tipio anghyfreithlon, felly bydd angen i awdurdodau lleol asesu a yw hyn yn angenrheidiol fesul achos.

Nid yw rhybuddiad amodol yn euogfarn droseddol. Mae rhybuddiadau yn cynnwys rhybuddiadau amodol a syml. Fe'u hystyrir yn gyfaddefiad o euogrwydd am droseddau y gellir erlyn pobl yn eu cylch. Fe'u rhoddir yn barhaol ar gofnod troseddol troseddwr yng Nghyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) sydd ar gael i'r heddlu a sefydliadau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith yn y DU. Defnyddir y PNC i gynnal archwiliadau amser real, er enghraifft ar gofnod troseddol unigolyn, pobl sydd ar goll, pobl y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt ac archwiliadau cofrestru cerbyd. Fel arfer, mater i'r llys yw ystyried a yw unrhyw euogfarn a/neu rybuddiad yn berthnasol i dreial troseddol ac a ydynt yn berthnasol i'w hystyried wrth ddedfrydu. Gall rhybuddiadau ymddangos ar wiriadau sylfaenol, safonol a manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn dryloyw ynghylch pam y rhoddwyd rhybuddiad amodol a rhaid iddynt fod yn fodlon bod rhybuddiad amodol yn briodol ac yn gymesur ag amgylchiadau pob achos.

Mae egwyddorion y Cod Rheoleiddwyr[12] yn berthnasol i unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys rhybuddiadau amodol. Mae hyn yn cynnwys y dylai gweithgarwch rheoleiddio gael ei wneud mewn ffordd sy'n gymesur, yn dryloyw, yn atebol ac yn gyson.

Fel y soniwyd yn barod, yn Lloegr mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau pwerau i gyhoeddi canllawiau gorfodi statudol ar dipio anghyfreithlon. Os bydd y cynigion hyn yn mynd rhagddynt, gellid cynnwys canllawiau ar rybuddiadau amodol yn y canllawiau hynny.

## I bwy y gellir eu rhoi?

Gellid rhoi rhybuddiad amodol i unrhyw un dros 18 oed sydd wedi cyflawni trosedd tipio anghyfreithlon. Gorfodir troseddau tipio anghyfreithlon o dan adran 33 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sef y gwaharddiad ar drin neu waredu gwastraff heb awdurdod neu mewn ffordd niweidiol[13].

Mae hyn yn cynnwys gwaredu gwastraff domestig, diwydiannol, masnachol neu wastraff arall a reolir, yn anghyfreithlon, a gall fod yn hylif neu'n solid. Fel arfer, ystyrir bod tipio anghyfreithlon yn wahanol i daflu sbwriel, sydd fel arfer yn golygu llai o wastraff.

---

[12] Cod Rheoleiddwyr
[13] Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Ni fyddai rhybuddiadau amodol yn addas ar gyfer pob math o droseddau tipio anghyfreithlon, gan gynnwys y rhai mwy difrifol lle dylid ceisio erlyn yn y lle cyntaf (er enghraifft, troseddwyr mynych neu weithredwyr â chymhelliant masnachol). Gallai rhybuddiadau amodol fod yn adnodd defnyddiol i awdurdodau lleol fynd i'r afael â chryn dipyn o droseddau lefel is (er enghraifft, nwyddau trydanol sy'n cael eu dympio ar stryd neu soffa mewn parc cyhoeddus).

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y cosbau penodedig presennol am sbwriel a thipio anghyfreithlon?**

Mae'r cynnig hwn yn wahanol i'r hysbysiad cosb benodedig presennol oherwydd gall fod yn ofynnol i'r troseddwr dalu amod gwneud iawn sy'n gymesur â chostau clirio'r drosedd tipio anghyfreithlon yn ogystal â chlirio ein strydoedd a'n parciau. Yn y cyd-destun hwn, nid yw'r gwaith hwn yr un fath â gofyniad gwaith di-dâl a orfodir gan lys. Nid yw'r cynnig hwn yr un fath â dedfryd gymunedol lle mae troseddwr wedi cael ei *erlyn, ei euogfarnu a'i ddedfrydu.*

**Pa fath o amodau y gellir eu cynnwys mewn rhybuddiad amodol tipio anghyfreithlon?**

Mae rhybuddiad amodol yn rhoi'r opsiwn i awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr wneud y canlynol:

- glanhau ein strydoedd a'n parciau[14], a
- talu amod gwneud iawn sy'n gymesur â chost clirio'r gwastraff a gafodd ei ddympio ganddynt, os digwyddodd hyn ar dir cyhoeddus.

**Sut mae'r rheini sy'n tipio'n anghyfreithlon yn talu'r amod gwneud iawn?**

Byddai'r amod sydd ynghlwm wrth y rhybuddiad yn cael ei dalu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol yn union fel cosbau penodedig am dipio anghyfreithlon - naill ai'n electronig neu mewn arian parod. Dylai awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth am ffyrdd o dalu'r rhybuddiad ar du blaen y rhybuddiad.

**Pa mor uchel all elfen yr amod gwneud iawn sydd wedi'i chynnwys mewn rhybuddiad amodol fod?**

Rydym yn awyddus i elfen amod gwneud iawn y rhybuddiad fod yn gymesur â chost clirio'r gwastraff sy'n cael ei ddympio gan y troseddwr tipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, ein barn

---

[14] Mae Canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn datgan na ddylai Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys gynnwys mwy nag 20 awr o waith di-dâl: Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys | Gwasanaeth Erlyn y Goron

ni yw y byddai erlyn yn well os yw'r amod gwneud iawn dros £5000, sef y terfyn uchaf ar hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon yn Lloegr. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynyddu terfyn uchaf yr hysbysiadau cosb benodedig hyn.

**Beth all yr awdurdod lleol ei wneud gyda'r incwm o rybuddiadau amodol?**

Dylid defnyddio incwm a gynhyrchir o elfen amod gwneud iawn y rhybuddiad i dalu am gost glanhau'r gwastraff a gafodd ei ddympio gan y troseddwr, os digwyddodd hyn ar dir cyhoeddus. Nid bwriad rhybuddiadau amodol yw creu refeniw.

**Beth gellid ei lanhau?**

Yn ddelfrydol, byddem yn dymuno i'r troseddwyr tipio anghyfreithlon lanhau eu gwastraff eu hunain y maent wedi'i ddympio'n anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae hynny'n golygu y byddai angen i'r awdurdod lleol adael y tipio anghyfreithlon yn ei le nes bod yr ymchwiliad wedi'i ddatrys a bod y rhybuddiad amodol gyda'r gorchymyn glanhau wedi'i roi a'i gyflawni. Mae hyn wedi cael ei wneud o'r blaen mewn cynlluniau peilot lle lapiwyd tâp ymchwiliad lleoliad trosedd o amgylch y tipio anghyfreithlon, gan egluro bod yr awdurdod lleol yn cymryd camau. Dangoswyd bod hwn yn fesur effeithiol i herio canfyddiadau y byddai'r awdurdod lleol yn glanhau unrhyw dipio anghyfreithlon heb ganlyniadau[15]. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd amgylchiadau lle na fyddai hyn yn ymarferol nac er budd y cyhoedd. Ar dir cyhoeddus, gallai wrthdaro â dyletswydd adran 89 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990[16] ar awdurdodau lleol i gadw eu tir yn glir o sbwriel. Gallai hefyd ddenu mwy o dipio anghyfreithlon.

Byddai angen i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad hwn fesul achos.

**Sut dylid rheoli troseddwyr?**

Bydd yn ofynnol i sefydliad reoli'r rhai sy'n derbyn rhybuddiad amodol. Disgwylir i waith y sefydliad hwn gynnwys:

- Nodi cyfleoedd gwaith addas ar gyfer clirio sbwriel a thipio anghyfreithlon.
- Cwblhau asesiadau risg sy'n gysylltiedig â'r gwaith.
- Trefnu bod y rhai sy'n derbyn rhybuddiad amodol yn mynd i leoliad penodol ar ddyddiad penodol.
- Rheoli a goruchwylio'r gwaith glanhau.
- Rheoli'r gwaith o waredu'r sbwriel neu'r tipio anghyfreithlon sydd wedi cael ei glirio.

---

15 Ymyriadau tipio anghyfreithlon | Keep Britain Tidy
16 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

**Sut dylid delio â phobl sydd ddim yn talu?**

Ein cynnig yw os nad yw'r troseddwr yn cyflawni'r naill elfen na'r llall o'r rhybuddiad amodol h.y. y taliad gwneud iawn neu'r gwaith clirio, dylai awdurdodau lleol ystyried erlyn am y drosedd wreiddiol sy'n golygu na fydd y rhybuddiad amodol mewn grym.

### Defnyddio eich gwybodaeth a'i rhannu

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a'r ymarfer galwad am dystiolaeth sydd ar gael yma https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice.cy.

**Gwybodaeth Arall**

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet a gellir gweld y rhain yn: Microsoft Word - Consultation Principles (1).docx (publishing.service.gov.uk)

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Amdanoch chi**

**C1. A ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?** Ydw / Nac ydw

Os mai 'Ydw' oedd eich ateb, rhowch eich rheswm.

**C2. Eich enw?**

**C3. Eich cyfeiriad e-bost?**

Mae hyn yn ddewisol, ond os byddwch yn rhoi eich cyfeiriad e-bost byddwch yn gallu dychwelyd i olygu eich ymateb i'r ymgynghoriad yn Citizen Space unrhyw bryd nes i chi ei gyflwyno. Byddwch hefyd yn derbyn e-bost cydnabod pan fyddwch yn cyflwyno ymateb wedi'i gwblhau.

| |
|---|
| |

**C4. Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?**

(Ticiwch un dewis os gwelwch yn dda. Os oes mwy nag un categori yn berthnasol, dewiswch yr un sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli yn eich ymateb.)

• Awdurdod lleol

- o cynghorau dosbarth
- o awdurdodau unedol
- o cynghorau sir
- o cynghorau cymuned neu blwyf

• Awdurdod sbwriel arall

- o Awdurdod y Broads
- o awdurdodau parciau cenedlaethol

• Sefydliad sy'n cynrychioli awdurdod lleol

- o Cynrychiolydd busnes / Corff masnach
- o Elusen neu fenter gymdeithasol
- o Grŵp cymunedol
- o Academaidd / ymgynghoriaeth / ymchwil
- o Arall

Os mai 'arall' oedd eich ateb, nodwch pa fath o sefydliad yn y blwch isod:

| |
|---|
| |

**C5. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, rhowch enw'r sefydliad / busnes rydych chi'n ei gynrychioli yn y blwch isod:**

| |
|---|
| |

**<u>Hysbysiadau cosb benodedig</u>**

**C6. Os ydych chi'n awdurdod lleol, ydych chi'n cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon ar hyn o bryd?**

- Ydyn
- Nac ydyn
- Ddim yn siŵr

Os mai 'nac ydyn' oedd eich ateb, neu os nad ydych yn siŵr, esboniwch eich ateb yn y blwch isod:

| |
|---|
| |

**Y pŵer arfaethedig**

**C7. Ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol gael pŵer disgresiwn i roi rhybuddiad amodol i droseddwyr sy'n tipio'n anghyfreithlon?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb yn y blwch isod:

| |
|---|
| |

**C8. Ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol allu erlyn os nad yw'r troseddwr tipio anghyfreithlon yn cydymffurfio â'r rhybuddiad amodol arfaethedig?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb yn y blwch isod:

**C9. Pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd os yw'r troseddwr yn cydymffurfio â rhan o amod rhybuddiad ond nid yr holl ofynion? (fel talu'r amod gwneud iawn ond peidio â gwneud gwaith glanhau)**

Esboniwch eich ateb yn y blwch isod:

**C10. Ydych chi'n meddwl y byddai cyflwyno'r pŵer amodol arfaethedig hwn yn golygu y byddai awdurdodau lleol yn lleihau nifer yr erlyniadau tipio anghyfreithlon y maent yn eu dwyn gerbron y llysoedd?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb yn y blwch isod:

**C11. Os ydych chi'n awdurdod lleol, a fyddech chi'n ystyried defnyddio'r pŵer amodol arfaethedig i roi rhybuddiadau amodol?**

- Byddwn
- Byddwn, ond dim ond rhai agweddau ar y pŵer amodol arfaethedig

- Na fyddwn
- Ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb yn y blwch isod:

**C12. A oes sefydliad presennol sydd mewn sefyllfa dda i oruchwylio troseddwyr sy'n tipio'n anghyfreithlon ac yn gorfod glanhau fel rhan o'u rhybuddiad amodol?**

- **Os felly, enwch y sefydliad ac esboniwch yn y blwch isod:**

- **Os nad oes, neu os nad ydych chi'n gwybod, esboniwch yn y blwch isod pa fath o sefydliad ddylai fod yn gyfrifol am y dasg hon yn eich barn chi?**

**Y gefnogaeth sydd ei hangen**

**C13: Pa gefnogaeth fyddai ei hangen arnoch i gyflwyno'r pŵer amodol arfaethedig hwn yn effeithiol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol**

- Cefnogaeth ariannol
- Darparu goruchwyliaeth
- Mynediad at safleoedd
- Arall (esboniwch yn y blwch isod)

**<u>Costau sy’n gysylltiedig â’r pŵer</u>**

**C14. Ydych chi’n meddwl y bydd yn rhaid i chi ysgwyddo costau ychwanegol fesul troseddwr sy’n cael rhybuddiad**

- Bydd
- Na fydd
- Ddim yn siŵr

Os ‘Bydd’, atebwch C14a-15

**C14a. Hoffech chi roi cyfanswm y gost flynyddol i chi weinyddu’r cynllun, neu a fyddai’n well gennych chi nodi amcangyfrifon o’r gost fesul troseddwr?**

- Cyfanswm y gost flynyddol
- Cost fesul troseddwr

**C14b. Beth yw’r amcangyfrif o gyfanswm y gost flynyddol i chi?**

- <£1,000
- £1,000-£1,999
- £2,000- £2,999
- £3,000-£3,999
- £4,000-£4,999
- £5,000 - neu fwy (nodwch y ffigur)
- Ddim yn siŵr

**C14c. Beth yw amcangyfrif y gost i chi fesul troseddwr sy’n cael rhybuddiad?**

- <£1,000
- £1,000-£1,999
- £2,000- £2,999
- £3,000-£3,999
- £4,000-£4,999
- £5,000 - neu fwy (nodwch y ffigur)
- Ddim yn siŵr

**C14d - Pa weithgareddau newydd fydd angen i chi eu gwneud bob blwyddyn? Ticiwch bob un sy’n berthnasol, a rhowch ddadansoddiad o’r costau blynyddol amcangyfrifedig yn y cromfachau a ddarparwyd**

- Hyfforddiant (£...)
- Canllawiau (£...)
- Newidiadau i systemau (£...)
- Cyflwyno rhybuddiadau (£...)
- Arall (eglurwch)

**C14e - Pa weithgareddau newydd fydd angen i chi eu gwneud ar gyfer pob troseddwr sy'n cael rhybuddiad? Ticiwch bob un sy'n berthnasol, a rhowch ddadansoddiad o'r costau blynyddol amcangyfrifedig yn y cromfachau a ddarparwyd**

- Hyfforddiant (£...)
- Canllawiau (£...)
- Newidiadau i systemau (£...)
- Cyflwyno rhybuddiadau (£...)
- Arall (eglurwch)

**C15. Faint o staff ychwanegol (cyfwerth ag amser llawn) ydych chi'n amcangyfrif y byddai eu hangen i gyflawni'r cynllun? Rhowch eich ateb yn y blwch isod:**

| |
|---|
| |

**Arbedion sy'n gysylltiedig â'r pŵer**

**C16. Os yw troseddwr yn cwblhau 20 awr o waith glanhau strydoedd, amcangyfrifwch y gostyngiad mewn costau glanhau (£), os o gwbl, a nodwch ble y disgwylir yr arbedion hyn.**

**Rhowch eich ateb yn y blwch isod:**

| |
|---|
| |

**C17. Y tu hwnt i'r costau glanhau, ydych chi'n meddwl y bydd y mesur yn arwain at arbedion ychwanegol i chi?**

- Bydd
- Na fydd
- Ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb yn y blwch isod:

| |
|---|
| |

**C17a. Os ydych chi wedi ateb 'arall':**

- Nodwch y maes/meysydd penodol lle disgwylir arbedion, a
- Rhowch amcangyfrif o arbedion ariannol, lle bo hynny'n bosibl

**Canlyniadau anfwriadol**

**C18. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r pŵer amodol arfaethedig?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb yn y blwch isod:

**C19. Pa ddifrod amgylcheddol, os o gwbl, y gellir ei achosi drwy gyflwyno'r pŵer amodol arfaethedig?**

(rhowch amlinelliad o'r rhain a sut gellid eu lliniaru yn y blwch isod)

**Dulliau eraill o fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon**

**C20. Ydych chi'n meddwl bod ffyrdd gwell o atal tipio anghyfreithlon na'r pŵer amodol arfaethedig?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

Esboniwch eich ateb yn y blwch isod:

Diolch am roi o'ch amser i gwblhau'r ymgynghoriad hwn.